# Y Pwyllgor Cyllid
## Agenda FIN(3)16-09 papur 5

### Goblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) - Gwybodaeth Ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

**Dyddiad: 8 Hydref 2009**

### 1. Cyflwyniad

1.1 Darperir y papur hwn i helpu'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y Mesur arfaethedig ynghylch Codi Tâl am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru). Dylid ystyried y papur ochr yn ochr â'r wybodaeth a gyhoeddwyd ym Memorandwm Eglurhaol y Mesur arfaethedig.

### 2. Cefndir

2.1 Darperir gwasanaethau gofal cartref a gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl eraill gan awdurdodau lleol o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Nodir y pŵer i godi tâl am wasanaethau a ddarperir o dan ddeddfwriaeth yn adran 17 Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 (HASSASSA). Yn ymarferol, rhydd y pŵer hwn ddisgresiwn eang i awdurdodau o ran sut i bennu eu taliadau, sut i benderfynu pa wasanaethau y dylid codi taliadau amdanynt a sut i bennu lefel y taliadau hynny. Rhydd hefyd ddisgresiwn i awdurdodau beidio â chodi tâl os nad ydynt am wneud hynny. Mae'r disgresiwn hwn wedi arwain at amrywiadau sylweddol yn y gwasanaethau y codir tâl amdanynt, yn yr amrywiaeth o daliadau y mae'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau eu talu ac yn y broses asesu ariannol.

2.2 Ym mis Gorffennaf 2002 er mwyn helpu i sicrhau bod eu polisïau yn deg ac yn rhesymol, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau i awdurdodau lleol o'r enw “*Polisïau Codi Tâl Tecach am Ofal Cartref a Gwasanaethau Cymdeithasol dibreswyl eraill - Canllawiau i Awdurdodau Lleol*”. Mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau hyn yn ganllawiau arfer da i awdurdodau ond cyhoeddwyd rhai elfennau o dan ddarpariaethau adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ac felly maent yn ganllawiau statudol. Nod elfennau statudol y canllawiau yw diogelu'r defnyddwyr gwasanaethau hynny sydd ar incwm isel a rhai defnyddwyr o dan amgylchiadau penodol. Maent yn cynnwys "byffer" sy'n sicrhau na chaiff incwm net defnyddiwr gwasanaeth ei ostwng islaw lefel benodol. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiystyru rhai mathau penodol o daliadau ac enillion wrth gynnal asesiadau ar gyfer codi tâl ac i sicrhau bod y terfynau ar gyfer cynilion a chyfalaf a ddefnyddir wrth gynnal asesiadau o'r fath yn cyfateb i'r rheini a ddefnyddir wrth gyfrifo'r taliadau ar gyfer llety preswyl.

2.3 Ym mis Mawrth 2007, estynnnwyd elfen statudol y canllawiau i ganiatáu i swm gael ei ddiystyru wrth gynnal asesiadau ar gyfer codi tâl mewn perthynas â phob defnyddiwr gwasanaeth fel cyfraniad tuag at wariant yr eir iddo mewn perthynas â'u hanabledd. O ganlyniad, mae elfennau statudol cyfredol y Canllawiau Codi Tâl Tecach fel a ganlyn:

- sicrhau na chaiff incwm net defnyddwyr gwasanaethau ei ostwng ar ôl codi tâl islaw lefel sylfaenol Cymhorthdal Incwm, neu islaw'r lefel credyd gwarantedig priodol, gan gynnwys "byffer" heb fod yn llai na 35% o'r swm hwn. Cynyddwyd y byffer hwn o'r lefel wreiddiol o 25% a bennwyd yn 2002 i 35% o 2007;

- sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael cyfradd unffurf o Wariant sy'n Gysylltiedig ag Anabledd wedi'i diystyru wrth gynnal asesiadau ar gyfer codi tâl, sef 10% o'u lefel sylfaenol o Gymhorthdal Incwm, lefel credyd gwarantedig priodol. Roedd y gofyniad hwn yn newydd o 2007;

- diystyru o'r asesiad codi tâl unrhyw daliadau credyd cynilion a gafwyd o dan y trefniadau Credyd Pensiwn. Cyflwynwyd y gofyniad hwn yn 2002;

- diystyru pob math o enillion fel rhan o incwm wrth gynnal asesiadau codi tâl. Cyflwynwyd y gofyniad hwn yn 2002;

- sicrhau bod terfynau cynilion a chyfalaf, lle y cânt eu hystyried gan awdurdodau lleol, o leiaf mor hael â'r terfynau hynny a nodir yn yr Arweiniad ar Godi Tâl am Lety Preswyl.

## 3. Costau'r trefniadau presennol

3.1 Mae awdurdodau lleol yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl i hwyluso bywydau beunyddiol pobl anabl a phobl hŷn ledled Cymru; er enghraifft, gofal cartref, gofal dydd, trafnidiaeth i ofal dydd a phrydau bwyd a chymorth i ofalwyr. Yn 2007-08, gwariodd awdurdodau lleol gyfanswm o £607m ar wasanaethau o'r fath. Derbyniodd tua 66,000 o oedolion yng Nghymru wasanaethau cymdeithasol yn y gymuned yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r unigolion hyn ymhlith rhai o aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas ac, heb y gwasanaethau hyn, byddai ansawdd eu bywyd yn waeth. Unigolion 65 oed a throsodd fydd mwyafrif helaeth y defnyddwyr gwasanaethau hyn.

3.2 Yn 2007-8, codwyd tâl ar tua 14,000 o ddefnyddwyr am y gwasanaethau hyn, gydag eraill yn cael eu heithrio rhag taliadau o ganlyniad i bolisïau codi tâl awdurdodau lleol a'r camau diogelu ariannol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Er mai ar leiafrif y codir tâl, nid yw hyn yn golygu nad oes angen ceisio ymdrin â'r anghysondebau presennol.

3.3 Derbyniodd awdurdodau lleol gyfanswm incwm o £36-37m drwy godi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn 2007-08 a gwariwyd tua

£5m ohono ar gostau gweinyddol casglu taliadau. Yn ogystal, cafodd awdurdodau lleol gyllid grant o £8.5m y flwyddyn honno gan Lywodraeth y Cynulliad (gan godi i £9.5m yn 2008-09) drwy ei Chynllun Grant Codi Tâl Tecach i'w digolledu am yr incwm a gollwyd o ganlyniad i gyflwyno'r newidiadau pellach i'r canllawiau statudol yn 2007. Fel y cyfryw, ariennir elfennau statudol cyffredinol y Canllawiau Codi Tâl Tecach drwy gymysgedd o adnoddau awdurdodau lleol eu hunain (ee treth gyngor neu Grant Cymorth Refeniw - GCR) a chyllid grant gan Lywodraeth y Cynulliad drwy'r grant hwn. Disgwylir i'r arian grant hwn ddod i ben yn 2009-10 gydag arian yn cael ei ychwanegu at y GCR o 2010-11 ymlaen.

## 4. Strwythur/cwmpas darpariaethau cyfreithiol

4.1 Bwriad cyffredinol y Mesur arfaethedig yw darparu ar gyfer cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer codi tâl a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu mwy cyson o godi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl.

4.2 Byddai'r Mesur arfaethedig yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a fydd yn caniatáu i ddarpariaethau manwl gael eu pennu mewn rheoliadau a chanllawiau statudol a gaiff eu llunio o dan y Mesur.

4.3 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth fanwl mewn rheoliadau mewn perthynas â'r canlynol:

a) y mathau o wasanaethau y gellir neu na ellir codi tâl amdanynt (e.e. gofal cartref, canolfannau gofal dydd, trafnidiaeth, prydau bwyd, golchi dillad, gwasanaethau adsefydlu);
b) y grwpiau cleient y gellir neu na ellir codi tâl arnynt (e.e. y rheini sy'n cael budd-daliadau penodol a gofalwyr);
c) y broses asesu ariannol (gan gynnwys beth y gellir ei ystyried a beth na ellir ei ystyried a'r lefel ofynnol o incwm y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau ei gael ar ôl codi tâl arnynt);
d) yr uchafswm tâl y gellir ei godi am wasanaeth unigol neu am unrhyw becyn o wasanaethau i unigolyn;
e) y broses o bennu uchafswm tâl neu amrywiaeth o uchafsymiau tâl ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth unigol;
f) y gallu i eithrio rhag codi tâl am rai gwasanaethau penodedig am gyfnod penodedig o amser;
g) adolygiadau o benderfyniadau codi tâl a wneir gan awdurdodau lleol

4.4 Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl ac yn caniatáu i Lywodraeth bresennol Cynulliad Cymru a Llywodraethau'r dyfodol ystyried amrywiaeth o opsiynau heb fod angen Mesur pellach.

<u>Darparu gwybodaeth</u>

4.5 Mae'r Mesur arfaethedig ei hun hefyd yn cynnwys darpariaethau i osod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth gyson am daliadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Er bod pob awdurdod eisoes yn

darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau, mae cynnwys a lefel manylion y wybodaeth hon yn amrywio. Mae'r Mesur arfaethedig yn anelu at ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr presennol gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr am y gwasanaethau y codir tâl amdanynt, eu taliadau safonol a dulliau prawf modd. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn rhad ac am ddim ac mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Lle y bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi tâl, mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod roi gwybodaeth i'r person y codir tâl arno ynghylch y tâl arfaethedig a'r weithdrefn ar gyfer adolygu taliadau. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn rhad ac am ddim hefyd. Bydd hyn yn cyflwyno dull gweithredu clir a chyson o ran y wybodaeth y mae defnyddwyr yn ei chael am eu taliadau. Dyma'r unig ddarpariaeth sy'n deillio'n uniongyrchol o'r broses o lunio'r Mesur arfaethedig.

4.6 Gan ddefnyddio'r pwerau yn y Mesur arfaethedig, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu dilyn dull gweithredu graddol o gyflwyno mwy o gysondeb gyda phecyn cychwynnol o welliannau yn cael ei ddilyn gan welliannau pellach dros gyfnod o amser.

## 5. Pecyn Gwella Camau Cyntaf

5.1 Os derbynnir y Mesur, mae Gweinidogion wedi nodi eu bod yn bwriadu rhoi Pecyn Gwella Camau Cyntaf ar waith i ddechrau cyflwyno mwy o gysondeb o ran y taliadau a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl. Y gobaith yw y câi'r pecyn hwn ei roi ar waith o fis Ebrill 2011 ac mae'n cynnwys y cynigion canlynol:

- rheoliadau i wneud elfennau statudol y Canllawiau Codi Tâl Tecach yn orfodol. Amlinellwyd yr elfennau hynny, e.e. y "byffer" a'r broses o ddiystyru gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd, yn gynharach;
- rheoliadau yn nodi uchafswm tâl wythnosol o £50 ar gyfer yr holl wasanaethau a dderbynnir sydd o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig y mae'r awdurdod yn codi tâl amdanynt;
- rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiystyru rhai budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag anabledd a ddarperir i'r rheini â lefelau uchel o anabledd wrth asesu'r gallu i dalu tâl rhesymol. Byddai hyn yn ymwneud â diystyru Lwfans Gweini Cyson a Lwfans Anabledd Difrifol yn llawn wrth gynnal asesiadau ar gyfer codi tâl;
- rheoliadau yn gwahardd awdurdodau rhag codi tâl am ddarparu cludiant i ganolfannau dydd. Bydd hyn yn golygu y bydd unigolion sydd angen y gwasanaeth hwn yn yr un sefyllfa â pholisi cronfeydd consesiwn ehangach Llywodraeth y Cynulliad o ddarparu trafnidiaeth am ddim i bobl anabl a phobl hŷn;
- rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno gweithdrefn ar gyfer adolygu taliadau. Bydd y rhain yn nodi manylion y weithdrefn adolygu, gan gynnwys pwy a all ofyn am adolygiad, sut y gellir gofyn am adolygiad, y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiad a therfynau amser perthnasol.

5.2 Yn ogystal, fel y nodir yn adran 5 o'r Mesur arfaethedig, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am ddim i ddefnyddwyr am y gwasanaethau y maent yn codi tâl amdanynt, ac i'r rheini y maent yn bwriadu darparu gwasanaethau iddynt, ynghyd â datganiad lle y caiff tâl ei osod.

Gwaith Ymchwil a gynhaliwyd gan LE Wales

5.3 Er mwyn hwyluso'r broses o ddatblygu polisi ar gyfer y Mesur arfaethedig, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen o randdeiliaid i roi cyngor ar opsiynau posibl ar gyfer cyflawni gwell cysondeb wrth godi tâl a goblygiadau'r opsiynau hynny. Er mwyn helpu i lywio trafodaethau'r grŵp a Gweinidogion, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad waith ymchwil annibynnol gan LE Wales; cwmni ymgynghori ar economeg a pholisi wedi'i leoli yng Nghymru sy'n rhan o Grŵp Ymgynghori Indecon-London Economics. Cynhyrchodd LE Wales ddau adroddiad. Mae'r cyntaf yn "Adroddiad Asesiad Gwaelodlin" cynhwysfawr o'r darlun presennol cyffredinol o ran y taliadau a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yng Nghymru. Mae'n darparu tystiolaeth bendant bod anghysondebau eang yn bodoli yn y gwasanaethau y codir tâl amdanynt; yn yr amrywiaeth o daliadau y mae'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau eu talu; yn yr asesiad ariannol; yn y wybodaeth a ddarperir am y broses codi tâl; ac, yn y ffordd yr ymdrinnir ag apeliadau ynghylch y taliadau a bennir.

5.4 Mae'r ail adroddiad, sef y "Prif Adroddiad" a gynhyrchwyd mewn cydweithrediad ag aelodau'r grŵp yn nodi opsiynau polisi posibl ac yn asesu goblygiadau pob opsiwn. Mae'n canolbwyntio ar gyflwyno newidiadau mewn perthynas â phedwar prif faes o'r broses codi tâl:

- asesiadau ariannol;
- mathau o ddefnyddwyr gwasanaethau y codir tâl arnynt;
- gwasanaethau y codir tâl amdanynt;
- lefelau taliadau.

5.5 Mae adroddiad y grŵp, ynghyd ag adroddiadau LE Wales, ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/charging/;jsessionid=lZLTKz9dCcRk6QZH9S2pxvmpTL1nXv2gMM15lJg5q9ZMBLLGMnzJ!-973246136?lang=cym

## 6. Goblygiadau Ariannol

6.1 Er mwyn amcangyfrif effeithiau'r newidiadau polisi a gynigiwyd, mae'n werth cofio mai dim ond un ohonynt sy'n deillio o ddarpariaethau sy'n uniongyrchol o fewn y Mesur arfaethedig ei hun, sef darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddai'r holl newidiadau polisi arfaethedig eraill, pe derbyniwyd y Mesur, yn deillio o Reoliadau a wneir o dan y pwerau a geir yn y Mesur arfaethedig. Fel rhan o'r broses o ystyried y Rheoliadau dilynol

hynny, byddai Memorandwm Eglurhaol ac Asesiad o'r Effaith Reoleiddiol yn cael eu cynhyrchu a fyddai'n cynnwys ystyried y goblygiadau ariannol.

6.2 Fodd bynnag, er mwyn helpu'r Pwyllgor wrth ystyried goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig, i ddilyn ceir asesiad o'r Pecyn Gwella Camau Cyntaf arfaethedig dilynol o ran nifer y defnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n cael budd a'r gost debygol. Mae hyn er mwyn i'r Pwyllgor allu gwerthfawrogi effaith lawn y newidiadau polisi arfaethedig, er mai dim ond un ohonynt sydd wedi'i gynnwys yn uniongyrchol yn y Mesur ei hun. Mae'r asesiadau hyn yn deillio o'r gwaith ymchwil a wnaed gan LE Wales yn seiliedig ar nodweddion codi tâl mewn un awdurdod lleol (a oedd yn cynrychioli'r sefyllfa "ganolig" ledled Cymru) wedi'u modelu yn erbyn y wybodaeth codi tâl a gasglwyd gan bob awdurdod yng Nghymru fel rhan o'r gwaith ymchwil. Cyfeirir at yr awdurdod lleol hwn fel yr 'awdurdod sylfaen'.

(i) Elfennau Statudol y Canllawiau Codi Tâl Tecach

6.3 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r elfen hon gan fod awdurdodau lleol, fel y disgrifir ym mharagraff 3.3, eisoes yn cael eu hariannu mewn perthynas â'r camau diogelu ariannol ychwanegol a gyflwynwyd i'r Canllawiau Codi Tâl Tecach yn 2007. Ychwanegir y cyllid hwn at y GCR o 2010-11 ymlaen.

(ii) Pennu Uchafswm Tâl Wythnosol o £50

6.4 Canolbwyntiodd yr asesiad ariannol ar yr opsiynau ar gyfer cyflwyno uchafswm tâl wythnosol ar wahanol symiau yn erbyn lefelau uchafsymiau taliadau sydd eisoes ar waith gan rai awdurdodau. Wedyn ystyriodd yr asesiad y costau cysylltiedig a'r nifer debygol o ddefnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n cael budd o hyn.

| **Uchafswm Tâl Wythnosol** | **Cost amcangyfrifedig y.f.** | **Amcangyfrif o nifer y defnyddwyr a fyddai'n cael budd** |
|---|---|---|
| £75 | £1.4m | 1,300 |
| £50 | £6.0m | 5,700 |

6.5 Ar hyn o bryd, dim ond 3 awdurdod sy'n gweithredu uchafswm taliadau ar gyfer gofal cartref islaw £75 yr wythnos, a dim ond un islaw £50 yr wythnos, felly byddai newid i uchafswm tâl o £50 yr wythnos i Gymru gyfan o fudd i'r nifer uchaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn y mwyafrif helaeth o ardaloedd awdurdodau. Byddai uchafswm tâl islaw'r lefel hon yn agos at ddarparu gofal am ddim ac felly nis ystyriwyd ar y sail na ellid ei fforddio.

6.6 Cyfrifwyd yr amcangyfrif o nifer y defnyddwyr a fyddai'n cael budd o'r opsiynau hyn drwy gael data ar gyfrannau'r defnyddwyr gwasanaethau sy'n talu taliadau o dan bob un o'r trothwyon gan yr awdurdod sylfaen ac wedyn cymhwyso pob un o'r cyfrannau hyn at nifer y defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn talu ymhob awdurdod lleol arall. Wedyn cyfunwyd y wybodaeth hon gyda gwybodaeth am yr uchafswm tâl presennol a gymhwysir gan bob

awdurdod lleol er mwyn amcangyfrif faint o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n talu fyddai'n cael budd o bob un o'r trothwyon newydd.

(iii) Diystyru Lwfans Anabledd Difrifol (SDA) a Lwfans Gweini Cyson (CAA) yn llwyr

6.7 Rydym yn awyddus i helpu'r rheini â lefelau uchel o anabledd sydd â chostau byw beunyddiol uwch o ganlyniad i'w hanabledd. Cyn mis Ebrill 2001, talwyd SDA i unigolion yr aseswyd eu bod yn 80% anabl ac na allent weithio am o leiaf 28 wythnos yn olynol oherwydd salwch neu anabledd. Er bod y budd-dal wedi dirwyn i ben, mae'r rheini a oedd yn ei dderbyn yn flaenorol yn parhau i'w dderbyn. Dywed DWP wrthym mai'r gyfradd wythnosol gyfartalog gyfredol yw £58.00 gyda 19,900 yn ei dderbyn ar hyn o bryd yng Nghymru. Er ei bod yn anodd bod yn fanwl gywir am faint o'r rhain sy'n cael gwasanaeth cymdeithasol dibreswyl y codir tâl amdano, mae'r costau yn y tabl isod yn seiliedig ar y data sydd ar gael gan yr awdurdod sylfaen wedi'i fodelu yn erbyn pob awdurdod ac maent yn amcangyfrif effaith cyflwyno cynnig i ddiystyru SDA yn llwyr wrth gynnal asesiadau ar gyfer codi tâl.

6.8 Telir CAA i unigolion y mae angen gofal a sylw cyson arnynt o ganlyniad i anaf neu afiechyd. Er mai dim ond nifer fach o bobl sy'n hawlio CAA yng Nghymru, ychydig o dan 200 o bobl, dywed DWP wrthym mai enghreifftiau o'r math o bobl a fyddai'n cael CAA fyddai'r rheini a oedd yn gaeth i'r gwely, yn ddall neu wedi'u parlysu. Mae cyfraddau'r budd-dal yn amrywio o £27.40 yr wythnos i £109.60 yr wythnos. Fel gydag SDA, mae'n anodd bod yn fanwl gywir am faint o'r rhain sy'n cael gwasanaeth cymdeithasol dibreswyl y codir tâl amdano ac mae'r costau yn y tabl isod yn seiliedig ar y data sydd ar gael gan yr awdurdod sylfaen wedi'i fodelu yn erbyn pob awdurdod ac maent yn amcangyfrif effaith cyflwyno cynnig i ddiystyru CAA yn llwyr wrth gynnal asesiadau ar gyfer codi tâl.

| **Y Budd-dal a gaiff ei Ddiystyru a'r Ganran** | **mcangyfrif o'r Gost y.f.** | **\mcangyfrif o'r Defnyddwyr /ddai'n Cael Budd** |
|---|---|---|
| Lwfans Anabledd Difrifol (100%) | £2.410m | 2,600 |
| Lwfans Gweini Cyson (100%) | £1.083m | 190 |

(iv) Cludiant am ddim i ganolfannau dydd

6.9 Er bod 19 o awdurdodau yn darparu cludiant i ganolfannau dydd ar hyn o bryd, dim ond pedwar awdurdod sy'n eithrio cludiant o'r broses codi tâl. O ystyried ein polisi o ddarparu cludiant am ddim i bobl anabl a phobl hŷn yn ehangach, a darparu cludiant GIG am ddim, ymddengys y byddai ond yn deg ehangu'r polisi hwn i'r rheini sydd angen cludiant i ganolfannau dydd. O ganlyniad, lle mae awdurdodau yn darparu'r gwasanaeth hwn, bydd angen iddynt ei ddarparu heb godi unrhyw dâl ar yr unigolyn. Yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio canolfannau dydd, a'r wybodaeth a gafwyd gan yr awdurdod sylfaen ac awdurdodau eraill ledled Cymru, byddai hyd at tua 32,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar gyflwyno cludiant am ddim am gost amcangyfrifedig o £1.4m y flwyddyn.

(v) Darparu gwybodaeth gyson a'r weithdrefn adolygu taliadau

6.10 Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau newydd yn gysylltiedig â'r cynnig i ddarparu gwybodaeth gyson na'r cynnig i roi gweithdrefn adolygu taliadau cyson ar waith rydym yn awyddus i'w cyflwyno.

6.11 Mae darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a sicrhau eu bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rhan graidd o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol. Mae awdurdodau eisoes yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau am yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir ganddynt. O ran gwybodaeth am daliadau, yn anffodus, mae cynnwys, lefel a defnyddioldeb y wybodaeth yn amrywio rhwng awdurdodau. Felly nid bwriad y cynnig hwn yw rhoi baich newydd ar awdurdodau ond yn hytrach, datblygu eu dyletswydd bresennol i adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes a darparu fframwaith cyffredin. Felly, nid ystyrir y dylai'r cynnig hwn gyflwyno unrhyw oblygiadau i awdurdodau o ran adnoddau.

6.12 Yn yr un modd, fel rhan o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol effeithiol, mae'n ofynnol i awdurdodau sicrhau bod y taliadau a godir ganddynt amdanynt yn rhesymol a'u bod wedi'u cyfrifo'n briodol. Felly mae pob awdurdod yn gweithredu proses adolygu taliadau er mwyn gwneud hyn, er bod rhai ohonynt yn defnyddio eu gweithdrefn gwyno ffurfiol i wneud hyn tra bod trefniadau ad hoc ar waith gan eraill. Yn anffodus, mae hyn yn arwain at anghysondeb o ran dulliau gweithredu, o ran y ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau i adolygu taliadau ac o ran yr amser a gymerir i wneud hynny. Fel gyda darparu gwybodaeth, nid bwriad y cynnig hwn yw rhoi baich newydd ar awdurdodau ond, yn hytrach, datblygu eu dyletswydd bresennol i adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes a darparu fframwaith cyffredin syml a chyflym ar gyfer cynnal adolygiadau. Oherwydd y gall defnyddwyr gwasanaethau gyflwyno cwynion drwy weithdrefn gwyno ffurfiol awdurdod, os ydynt yn anfodlon â lefel y tâl a godwyd arnynt neu'r dull o'i gyfrifo, dylai cyflwyno proses syml o'r fath leihau nifer y defnyddwyr sy'n teimlo bod angen iddynt ddefnyddio gweithdrefnau cwyno'r awdurdod ac, yn yr awdurdodau hynny lle mai'r broses adolygu taliadau yw'r weithdrefn gwyno, disgwyliwn y bydd gostyngiad uniongyrchol yn nifer y cwynion o'r fath. Felly nid ystyrir y dylai'r cynnig hwn ychwaith gyflwyno unrhyw oblygiadau i awdurdodau o ran adnoddau.

## 7. Cost gyffredinol

7.1 Ar sail y cyfrifiadau hyn, gellir crynhoi cost gyffredinol y Pecyn Camau Cyntaf os caiff ei weithredu drwy Reoliadau a wneir o dan y Mesur arfaethedig fel a ganlyn: Mae hyn yn unol â phrisiau cyfredol:

| Elfennau'r Pecyn | Amcangyfrif o'r Gost y.f. | Amcangyfrif o'r Defnyddwyr Fyddai'n Cael Budd |
|---|---|---|
| chafswm tâl wythnosol o £50 | £6.0m | 5,700 |
| Diystyru 100% o'r SDA | £2.410m | 2,600 |

| | | |
|---|---|---|
| Diystyru 100% o'r CAA | £1.083m | 190 |
| Cludiant i Ganolfannau Dydd | £1.400m | Hyd at 32,000 |
| **Cyfanswm** | **£10.893m** | |

7.2 Y gost hon fyddai'r incwm taliadau y byddai awdurdodau lleol yn ei ildio wrth roi'r cynigion a amlinellir uchod ar waith gan ddefnyddio eu polisïau codi tâl presennol. Fel y nodais yn fy Natganiad Bwriad Polisi ar 30ain Mehefin i Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid, o dan ein Cytundeb Partneriaeth gyda llywodraeth leol, rydym yn ymrwymedig i ad-dalu cost unrhyw faich ariannol ychwanegol a roddir gennym ar awdurdodau lleol iddynt. O ganlyniad, os cytunir ar y Mesur arfaethedig, byddwn yn ymgysylltu â llywodraeth leol i gytuno ar fanylion a lefel yr amcangyfrif hwn, yn ogystal â'i ailbrisio i brisiau 2011-2012 gan mai dyna pryd y disgwylir i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith. Byddai'r broses ailbrisio hon yn ystyried chwyddiant, newidiadau i lefelau budd-dal DWP ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill a fyddai'n effeithio ar yr amcangyfrif hwn.

**8. Y posibilrwydd y ceir cynnydd yn y galw am wasanaethau**

8.1 Mae gwaith ymchwil LE Wales a chyngor gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn haeru nad oes galw sylweddol nas bodlonir am wasanaethau, lle nad yw unigolion sydd angen gwasanaethau yn eu derbyn ar hyn o bryd. Felly nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod nifer sylweddol o bobl nad ydynt yn cael gwasanaethau ar hyn o bryd ac a fyddai yn awyddus i gael gwasanaethau pe byddai'r sefyllfa o ran y tâl a godir yn newid. Yn ystod trafodaethau, nododd Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig y gallai'r cynigion i newid y trefniadau codi tâl achosi rhywfaint o broblemau cychwynnol wrth ddarparu gwasanaethau ond nid ydynt wedi awgrymu y byddai'r problemau hyn yn sylweddol nac na ellid rheoli'r sefyllfa'n effeithiol.

8.2 Efallai na fydd y rheini sy'n talu'n breifat am eu gwasanaethau ar hyn o bryd mor barod i ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol â'r disgwyl. Ar hyn o bryd, gallant gomisiynu gwasanaethau gan bwy bynnag y dymunant a'u derbyn fel y dymunant. Byddai rhyddid o'r fath yn cael ei gyfyngu pe comisiynwyd gwasanaethau drwy eu hawdurdod lleol. Efallai na fydd y rheini yn y fath sefyllfa yn croesawu'r angen posibl i orfod newid darparwr i ddarparwr y mae gan eu hawdurdod lleol gontract ag ef yn hytrach na'u darparwr presennol na'r ffaith y caiff y gwasanaeth ei ddarparu mewn ffordd sy'n diwallu'r anghenion a aseswyd ar eu cyfer yn hytrach na'r hyn y maent yn ei brynu ar hyn o bryd. Gallai'r ddau fod yn wahanol iawn.

8.3 Yn ogystal, ni fyddai'r holl bobl hynny sy'n talu'n breifat am eu gwasanaethau ar hyn o bryd yn gymwys i gael gwasanaethau a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol. O dan ganllawiau "Creu System Deg ac Unedig i Asesu a Rheoli Gofal", mae gan awdurdodau'r disgresiwn i bennu eu meini prawf cymhwyster eu hunain mewn perthynas â chael gafael ar wasanaethau yn seiliedig ar ddosbarthiadau o ran anghenion gofal unigolyn. Gwnaed hyn er mwyn rhoi'r rhyddid i awdurdodau bennu cymhwyster yn lleol gan ystyried argaeledd adnoddau a blaenoriaethau lleol mewn perthynas â darparu

gwasanaethau. O ganlyniad, yn unol â'r canllawiau, gall awdurdodau bennu eu cymhwyster ar un o bedwar dosbarth - anghenion isel, cymedrol, sylweddol a chritigol. Erbyn hyn, dim ond i'r unigolion hynny y mae eu hanghenion wedi'u dosbarthu i'r ddau gategori uchaf - sylweddol a chritigol - y mae fwy neu lai pob awdurdod yng Nghymru yn darparu gwasanaethau. Felly dim ond yr unigolion hynny sy'n talu'n breifat am eu gofal ar hyn o bryd a gâi eu dosbarthu i'r categorïau hynny yn dilyn asesiad o'u hanghenion gofal fyddai'n gymwys i gael gwasanaeth gan awdurdod lleol. Byddai'r gweddill naill ai'n parhau i orfod talu'n breifat am eu gwasanaethau neu'n gorfod gofyn am gymorth gan eu teulu neu eu ffrindiau fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

8.4 Lle bydd unigolion yn cael gwasanaethau a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol am y tro cyntaf, efallai na fyddant yn croesawu’r posibilrwydd o orfod datgan eu hamgylchiadau ariannol fel rhan o brawf modd. Mae llawer o bobl o'r farn bod prawf modd yn gofyn am ormod o wybodaeth ac mae'n well ganddynt beidio â chael prawf o'r fath, gan dalu ar hyn o bryd y tâl llawn a godir gan awdurdod am y gwasanaethau a gânt pa un a ddylent fod yn gwneud hynny ai peidio. O dan y Mesur arfaethedig, bydd unigolion o'r fath yn gallu peidio â gofyn am brawf modd os dymunant wneud hynny. Lle bydd hyn yn digwydd, bydd awdurdodau yn gallu codi'r uchafswm tâl wythnosol a bennwyd am y gwasanaethau a ddarperir pa un a yw amgylchiadau'r unigolyn yn gwarantu hyn ai peidio.

8.5 Nid yw'r Pecyn Gwella Camau Cyntaf yn anelu at gyflwyno gwasanaethau am ddim i bawb. Codir tâl am rai gwasanaethau penodol o hyd ac ar rai categorïau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau, er mai dim ond hyd at uchafswm o £50 yr wythnos ar gyfer yr holl wasanaethau y mae defnyddiwr yn eu derbyn fydd y tâl hwnnw. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban, er enghraifft, lle y cyflwynwyd gofal personol am ddim yn wyneb galw sylweddol sydyn am wasanaethau. Gallai tâl, ni waeth pa mor fach, atal rhai unigolion rhag gofyn am wasanaethau gan eu hawdurdod lleol o ystyried y canlyniadau eraill cysylltiedig o ran rhyddid a phrofion modd.

8.6 Ar hyn o bryd, felly, nid oes unrhyw dystiolaeth glir i awgrymu ei bod yn debygol y bydd galw cynyddol sylweddol am wasanaethau o ganlyniad i roi'r Pecyn Gwella Camau Cyntaf arfaethedig ar waith. Fodd bynnag, os bydd llywodraeth leol neu eraill yn cyflwyno tystiolaeth o alw cynyddol am wasanaethau, neu effaith andwyol ar wasanaethau, caiff hyn wrth gwrs ei ystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu Rheoliadau drafft dilynol i ymgynghori arnynt er mwyn rhoi fy niwygiadau cychwynnol ar waith. Nid yw'r goblygiadau gweithredol posibl hyn yn tanseilio'r egwyddorion sy'n sail i'r Mesur arfaethedig na'r achos cadarn o blaid sicrhau mwy o gysondeb o ran codi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl ledled Cymru mewn unrhyw ffordd.

**Gwenda Thomas AC**
**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**
**Medi 2009**